GIG CYMRU NHS WALES
Bwrdd Iechyd Prifysgol Aneurin Bevan University Health Board

# Eich Canllaw i'r Adran Rhiwmatoleg

NHS

**At ddefnydd cleifion o dan ofal Adan Rhiwmatoleg Bwrdd Iechyd Prifysgol Aneurin Bevan yn unig.**

## A oes Angen Sgript Meddyginiaeth Fiolegol Newydd arnoch?

Cysylltwch ag Ysgrifennydd eich Ymgynghorydd:

Dr Asif- 01633238363

Dr Ayas- 01873732369

Dr Callaghan- 01873732948

Dr Huws- 01633238172

Dr O'Beirn- 01873732298

Dr Pugh- 01633238363

Dr Rajamani- 01443802210

Dr Thomas- 01633238334

## A oes gennych Ymholiad yn Ymwneud â'ch Apwyntiad?

Ffoniwch y tîm trefnu apwyntiadau ar 01495765055 – opsiwn 4

Gallwch hefyd ffonio'r rhif hwn os oes angen i chi ail-drefnu eich apwyntiad, os ydych wedi methu apwyntiad neu os oes angen apwyntiad arnoch. Fel arall, gallwch anfon e-bost at:

**ABB.RheumatologyRBC@wales.nhs.uk**

## A yw'ch Meddyginiaeth yn cael ei gludo i chi gan HomeCare neu Sciensus?

Sciensus- 0333 1039499

Lloyds- 0345 2636123

Alcura- 0800 9800686

Healthnet: 0800 0833060

Os yw eich dosbarthiad yn hwyr ac yr hoffech ddiweddariad, ffoniwch y rhif ar waelod eich pecyn. Peidiwch â ffonio'r llinell gyngor na'r ysgrifenyddion i holi am ddosbarthiadau.

# Llinell Gyngor i Gleifion

## 01873 732046

**Dim ond ar agor: Dydd Llun, dydd Mawrth a dydd Iau yn unig, 8am -4pm**

Mae’r llinell gyngor ar gyfer cleifion sy’n cael trafferth gyda’u cyflwr rhiwmatolegol neu gyda’u meddyginiaethau ac sydd angen eu trafod gyda’n nyrsys arbenigol. Yn arbennig cleifion nad oes ganddynt apwyntiad wedi’i drefnu o fewn y 7 diwrnod nesaf gydag aelod o'r tîm Rhiwmatoleg.

Mae hwn yn wasanaeth peiriant ateb a bydd angen eich:

- Enw, rhif ffôn, dyddiad geni a'r rheswm dros eich galwad.
- Sicrhewch eich bod yn galw i drafod materion sy'n ymwneud â'ch cyflwr rhiwmatolegol neu feddyginiaethau sy’n ymwneud â chyflwr rhiwmatolegol
- Os ydych yn ffonio ar ran rhywun, gwnewch yn siŵr eu bod yn bresennol i roi caniatâd bob tro y byddwch yn ffonio.

**Mae’r llinell gyngor ar gyfer:**

✓ Rhoi gwybod i ni am boenau yn y cymalau sy'n gwaethygu

✓ Cynyddu neu leihau eich meddyginiaeth rhiwmatoleg

✓ Newid eich meddyginiaeth rhiwmatoleg (os mai dim ond gydag aelod o'r tîm rhiwmatoleg y mae hyn wedi’i drafod yn flaenorol)

✓ Angen newid neu roi diweddariad ynghylch ymweliad i uned dydd

✓ Os ydych chi'n cael sgîl-effeithiau annisgwyl i'ch meddyginiaeth rhiwmatoleg.

✓ Os ydych yn cael trafferth lleihau eich steroidau.

✓ Os oes gennych haint/COVID neu os ydych wedi bod mewn cysylltiad â rhywun sydd â brech yr ieir/yr eryr a’ch bod eisiau **arweiniad ar beth i’w wneud o ran eich meddyginiaethau rhiwmatoleg yn unig (ar gyfer asesiad a thriniaeth siaradwch â’ch meddyg teulu)**

**Nid yw’r llinell gyngor ar gyfer:**

✗ **Rheoli poen** neu ymholiadau meddygol cyffredinol nad ydynt yn ymwneud â'ch cyflwr rhiwmatolegol. Ee poen yn y frest, coes yn chwyddo, diffyg anadl, problemau deintyddol, yn dilyn damweiniau ac anafiadau, pendro, colli ymwybyddiaeth

✗ Nid llinell frys yw hon (ar gyfer cyngor rhiwmatoleg yn unig)

✗ Os oes gennych symptomau tebyg i’r ffliw mae angen i chi gael eich asesu gan eich meddyg teulu er mwyn penderfynu a oes angen gwrthfiotigau arnoch.

✗ Ni ddylid ei defnyddio os byddwch yn methu â chael gafael ar yr ysgrifennydd

✗ Os yw eich apwyntiad gydag un o'r tîm rhiwmatoleg yn ystod y 7 diwrnod nesaf; ni fyddwn yn rhoi galwad yn ôl i chi

✗ Os oes gennych unrhyw broblemau o ran eich fferyllfa’n rhoi presgripsiynau biolegol. Cysylltwch ag ysgrifennydd eich ymgynghorwyr

✗ Unrhyw ganlyniadau prawf gwaed neu ganlyniadau radioleg

✗ O ran apwyntiadau, ffoniwch rif y swyddfa trefnu apwyntiadau a ddarperir

✗ Gwneud cais am bresgripsiynau **biolegol** - cysylltwch â'r ysgrifenyddion

✗ Os ydych wedi gweld eich Meddyg Teulu a'u bod yn anfon atgyfeiriadau brys at yr adran Rhiwmatoleg, nid oes angen ein ffonio